




Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Canllaw i'ch Ymddeoliad Mehefin 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	4
Pwynt i'w nodi: newidiadau i oed pensiwn	4
Rhan 1: Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	4
Pensiwn diogel	4
Pensiwn goroeswr	5
Cymryd cyfandaliad.....	5
Gostyngiad treth	5
Hyblygrwydd i dalu mwy neu lai	5
Yswiriant bywyd	5
Sut y caiff eich buddion CPLIL eu cyfrif	6
Sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014	6
Sut y cyfrifir eich buddion rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014	6
Sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo cyn 1 Ebrill 2008	6
Gweithio'n rhan amser	6
Enghraifft 1: Cyfrifo buddion CPLIL yn y cynllun cyflog terfynol.....	7
Tabl 1: Buddion wedi eu cronni yn y cynllun cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014.....	7
Amddiffyniad tanategu	8
Pryd allwch chi gymryd eich pensiwn	8
Cymryd eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol	9
Ffactorau gostyngiad ymddeoliad cynnar	9
Tabl 2: Ffactorau gostyngiad ymddeoliad cynnar.....	9
Cymryd eich buddion ar ôl eich oedran ymddeol arferol.....	10
Salwch	10
Diswyddo ac effeithlonrwydd busnes.....	10
Ymddeoliad Hyblyg	10
Addasiadau costau byw	10
Cymryd cyfandaliad pan rydych yn ymddeol.....	11
Enghraifft 2: Troi pensiwn blyneddol yn gyfandaliad	11
Ailgylchu.....	12
Cynyddu eich pensiwn	12
Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY).....	13
Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol	13

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol	13
Pensiynau personol neu fudd-ddeiliaid	14
Treth a'ch pensiwn.....	14
Lwfans blynyddol	14
Ar ôl i chi gymryd eich pensiwn	15
Rydych yn cael swydd newydd	15
Rydych yn symud dramor	15
Newidiadau i'ch statws priodasol	15
Os ydych yn newid eich cyfeiriad neu gyfrif banc.....	15
Buddion marwolaeth	15
Cymryd eich pensiwn CPLIL: y broses	16
Hyfforddiant cyn ymddeol	16
Cyfnod rhybudd	17
Incwm a gwariant ar ôl ymddeol	17
Canllaw Pension Wise	17
Eich pensiwn CPLIL	17
Gwybodaeth Ychwanegol	19
Cael cymorth ychwanegol.....	19
Help os oes gennych chi ymholiad neu gŵyn	20
Rhan 2: Gwybodaeth ddefnyddiol arall	21
Pensiwn y Wladwriaeth	21
Treth a'ch pensiwn.....	21
Olrhain hawliau pensiwn blaenorol	21
Twyll pensiynau.....	22
Lle i fynd am gymorth	23
Cynllunio Cyllideb.....	25
Lle gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	26
Ymwadiad:	26
Nodiadau.....	27

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn ar gyfer aelodau sydd yn talu cyfraniadau pensiwn i mewn i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar hyn o bryd ac yn cynllunio ar gyfer eu hymddeoliad.

Mae rhan un y canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y CPLIL. Mae'n cynnwys yr amddiffyniad ariannol mae'r CPLIL yn ei gynnig i chi a'ch teulu. Mae rhan un hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ymddeoliad a'r penderfyniadau sy'n rhaid i chi eu gwneud.

Mae rhan dau yn edrych yn fwy eang ar faterion a allai effeithio arnoch yn eich ymddeoliad. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am dreth a Phensiwn y Wladwriaeth. Hefyd gallwch ddod o hyd i ddolenni a gwybodaeth gyswllt ar gyfer sefydliadau all eich cefnogi.

Pwrpas y canllaw hwn yw eich helpu gyda'ch cynllun ymddeol. Ni ddylech ei ddefnyddio yn lle cyngor ariannol. Os ydych angen cyngor ariannol, dylech gysylltu ag ymgynghorydd ariannol annibynnol.

Pwynt i'w nodi: newidiadau i oed pensiwn

Mae'r canllaw yn egluro mai isafswm yr oedran ymddeol ar hyn o bryd yw 55 oed.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os oes rhaid i chi gymryd eich pensiwn yn gynnar oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os oeddech wedi ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd gael eich gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r CPLIL, os yw amodau penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r CPLIL yn caniatáu i chi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau'r CPLIL. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, i gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Pan fo 55 yn cael ei grybwyll yn y canllaw hwn, cofiwch y bydd hyn yn newid i 57 o 6 Ebrill 2028.

Rhan 1: Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Manteision y CPLIL

Pensiwn diogel

Cyfrifir eich pensiwn ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun ar sail eich tâl pensynadwy ar gyfer pob blwyddyn. Mae blwyddyn y cynllun yn dod i ben ar 31 Mawrth. Ym mis Ebrill, ar ôl diwedd pob blwyddyn y cynllun, bydd eich pensiwn yn cael ei addasu yn unol â'r newidiadau

mewn costau byw. Gallwch ddarllen mwy ynglŷn â **sut mae eich buddion CPLIL yn cael eu cyfrif** yn yr adran nesaf.

Pensiwn goroeswr

Pan fyddwch yn marw, bydd pensiwn yn cael ei dalu i'ch:

- gŵr,
- gwraig,
- partner sifil, neu
- bartner sy'n cyd-fyw (os ydynt yn bodloni amodau penodol)

am weddill eu hoes.

Gall pensiynau plant hefyd fod yn daladwy.

Cymryd cyfandaliad

Pan fyddwch yn cael eich pensiwn, bydd gennych opsiwn i gyfnewid ychydig ohono am gyfandaliad. Bydd y cyfandaliad yn cael ei dalu'n ddi-dreth ym mwyafrif yr achosion. Fodd bynnag, mae cyfyngiad ar faint o arian di-dreth y gallwch ei gymryd o'ch pensiwn. Os ydych yn mynd dros y cyfyngiad, bydd rhaid i chi dalu treth ar eich graddfa ymylol.

Gostyngiad treth

Mae cyfraniadau pensiwn yn cael eu cymryd o'ch cyflog cyn i'ch treth gael ei gyfrifo. Fel aelod o'r CPLIL, os ydych yn talu treth, byddwch yn talu llai o dreth ar eich cyflog.

Hyblygrwydd i dalu mwy neu lai

Gallwch dalu hanner eich cyfraniadau arferol yn gyfnewid am gasglu hanner eich pensiwn arferol. Gelwir hyn yn adran 50:50.

Gallwch gynyddu eich pensiwn drwy dalu mwy o gyfraniadau. Gallwch ddarllen mwy am hyn yn yr adran **cynyddu eich pensiwn** yn y canllaw hwn.

Yswiriant bywyd

Os ydych yn marw tra rydych dal yn talu cyfraniadau CPLIL, mae grant marwolaeth sydd deirgwaith yn fwy na'ch tâl pensiynadwy tybiedig yn daladwy. Mae tâl pensiynadwy tybiedig yn amcangyfrifiad o'ch tâl pensiynadwy blynyddol arferol. Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn penderfynu i bwy i dalu unrhyw grant marwolaeth ond bydd yn ystyried eich dymuniadau.

Gallwch ddiweddarau eich cofnod mynegi dymuniad drwy'r Porth Hunanwasanaeth i Aelodau:

<https://mss.clwydpensionfund.org.uk>

Neu gallwch gael ffurflen gennym, naill ai drwy lawrlwytho un o'r **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan neu drwy ffonio'r rhif ffôn ar ddiwedd y canllaw ymddeol hwn.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddarganfod mwy am fanteision aelodaeth o'r CPLIL ar [wefan aelodau'r CPLIL](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Hefyd gallwch wyllo'r [fideos Gwneud Pensiwn yn Syml](#).

Sut y caiff eich buddion CPLIL eu cyfrif

Newidiodd y CPLIL o gynllun cyflog terfynol i gynllun cyfartaledd enillion gyrfa ar 1 Ebrill 2014.

O 1 Ebrill 2014, mae'r buddion sydd wedi eu cynilo yn y CPLIL yn cael eu cyfrifo dan reolau'r cynllun cyfartaledd gyrfa.

Os wnaethoch chi ymuno â'r CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, byddwch hefyd wedi cynilo buddion yn y cynllun cyflog terfynol.

Sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014

Bob blwyddyn, bydd 1/49 o'ch tâl pensiynadwy yn cael ei ychwanegu at eich cofnod pensiwn. Caiff eich pensiwn ei ddiogelu os yw eich cyflog yn is na'r arfer o ganlyniad i salwch neu absenoldeb â thâl yn gysylltiedig â phlentyn.

Ym mis Ebrill, ar ôl diwedd pob blwyddyn yn y cynllun, bydd eich pensiwn yn cael ei addasu yn unol â'r newidiadau mewn costau byw. Mae'r enghraifft yn [nhabl 1](#) yn dangos sut mae hyn yn gweithio.

Sut y cyfrifir eich buddion rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014

Ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth y CPLIL rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014, byddwch yn cael pensiwn sydd yn 1/60 o'ch **tâl terfynol**.

Fel arfer mae eich **tâl terfynol** yn dâl pensiynadwy yr ydych yn ei ennill yn y flwyddyn cyn i chi roi'r gorau i dalu cyfraniadau'r CPLIL. Gellir defnyddio tâl o un o'r ddwy flynedd flaenorol os yw'n uwch.

Sut mae eich buddion yn cael eu cyfrifo cyn 1 Ebrill 2008

Ar gyfer pob blwyddyn o aelodaeth y CPLIL cyn 1 Ebrill 2008, byddwch yn cael pensiwn sydd yn 1/80 o'ch **tâl terfynol**, a chyfandaliad o 3/80 o'ch **tâl terfynol**.

Gweithio'n rhan amser

Os wnaethoch weithio'n rhan amser cyn 1 Ebrill 2014, caiff eich aelodaeth CPLIL ei leihau yn unol â hynny. Er enghraifft, os wnaethoch weithio 18.5 awr yr wythnos a bod oriau cyfwerth â llawn amser y swydd yn 37 awr yr wythnos, bydd eich aelodaeth yn cael ei lleihau o 18.50/37.00, sef hanner. Rydym yn dal i ddefnyddio eich tâl cyfwerth â llawn amser i gyfrifo eich buddion pensiwn.

Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos sut y caiff buddion y CPLIL ei gyfrif ar gyfer aelod:

- sy'n ymddeol ar oedran ymddeol arferol ar 31 Mawrth 2026
- gyda 30 mlynedd o aelodaeth CPLIL
- y mae ei gyflog terfynol yn £43,000
- sydd hefyd wedi cronni pensiwn cyfartaledd gyrfa ers 1 Ebrill 2014 (fel y gwelir yn y tabl)

Enghraifft 1: Cyfrifo buddion CPLIL yn y cynllun cyflog terfynol

Buddion ar sail aelodaeth 12 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2008:

Pensiwn: $12 \div 80 \times £43,000 = \text{£6,450}$

Cyfandaliad: $3 \times 12 \div 80 \times £43,000 = \text{£19,350}$

Buddion ar sail aelodaeth 6 blynedd o 1 Ebrill 2008 tan 31 Mawrth 2014:

Pensiwn: $6 \div 60 \times £43,000 = \text{£4,300}$

Tabl 1: Buddion wedi eu cronni yn y cynllun cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014

Blwyddyn y cynllun	Pensiwn ar ddechrau'r flwyddyn	Cyflog pensiynadwy gros a chyfradd cronni	Pensiwn (ar gyfer y flwyddyn honno)	Cynnydd o ran chwyddiant	Pensiwn ar ddiwedd y flwyddyn
2014/2015	£0	$£27,600 \div 49 = £563$	£563	£7 (1.2%)	£570
2015/2016	£570	$£28,100 \div 49 = £573$	£1,143	-£1 (-0.1%)	£1,142
2016/2017	£1,142	$£29,900 \div 49 = £610$	£1,752	£18 (1.0%)	£1,770
2017/2018	£1,770	$£30,600 \div 49 = £624$	£2,394	£72 (3.0%)	£2,466
2018/2019	£2,466	$£30,900 \div 49 = £631$	£3,097	£74 (2.4%)	£3,171
2019/2020	£3,171	$£32,700 \div 49 = £667$	£3,838	£65 (1.7%)	£3,903
2020/2021	£3,903	$£33,400 \div 49 = £682$	£4,585	£23 (0.5%)	£4,608
2021/2022	£4,680	$£34,800 \div 49 = £710$	£5,318	£165 (3.1%)	£5,483
2022/2023	£5,483	$£35,800 \div 49 = £731$	£6,214	£621 (10.1%)	£6,835
2023/2024	£6,835	$£39,400 \div 49 = £804$	£7,639	£512 (6.7%)	£8,150
2024/2025	£8,150	$£42,150 \div 49 = £860$	£9,010	£153 (1.7%)	£9,163
2025/2026	£9,163	$£43,000 \div 49 = £878$	£10,041	£201 (2.0%*)	£10,242

*ffigwr tybiedig

Mae'r aelod wedi cronni pensiwn blyneddol o **£20,992**, yn cynnwys:

- cyn 1 Ebrill 2008: £6,450
- rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2014: £4,300
- ar ôl 31 Mawrth 2014: £10,242

Maent hefyd wedi cronni cyfandaliad di-dreth o **£19,350**

Amddiffyniad tanategu

Pan newidiodd y CPLIL o gynllun cyflog terfynol i gynllun cyfartaledd gyrfa yn 2014, cafodd aelodau hŷn eu hamddiffyn rhag y newidiadau. Daeth y llysoedd i'r casgliad y gwahaniaethwyd yn erbyn aelodau iau cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus eraill gan nad oedd amddiffyniad tebyg yn weithredol iddynt hwy.

Newidiodd rheolau'r CPLIL yn 2023 i gael gwared ar y gwahaniaethu hwn. Caiff y newidiadau hyn eu hadnabod fel 'Datrysiaid McCloud'. Efallai bod eich pensiwn CPLIL wedi'i amddiffyn gan y tanategiad os ydych:

- wedi ymuno â'r CPLIL neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus gwahanol cyn 1 Ebrill 2012
- wedi cyrraedd 65 oed ar ôl Ebrill 2014
- yn aelod o'r CPLIL rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022, a
- heb gael toriad sy'n eu hanghymwyso. Toriad sy'n anghymwyso yw toriad o fwy na phum mlynedd pan nad oeddech yn talu i mewn i'r CPLIL nac unrhyw gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall.

Nid oes angen i chi wneud hawliad am amddiffyniad tanategu. Fodd bynnag, efallai bydd angen i Gronfa Bensiynau Clwyd ofyn i chi am aelodaeth flaenorol o'r CPLIL neu gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall i ddarganfod a ydych yn cael eich amddiffyn.

Os ydych yn cael eich amddiffyn, pan fyddwch yn ymddeol, byddwn yn gwirio a fyddai'r pensiwn yr ydych wedi'i gronni yn y cyfnod tanategu wedi bod yn fwy o dan y cynllun cyflog terfynol. Os yw hyn yn wir, bydd eich pensiwn yn cynyddu. Y cyfnod tanategu yw rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2022. Daeth eich amddiffyniad i ben yn gynharach os gyrhaeddoch 65 oed cyn 31 Mawrth 2022.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am sut y cyfrifir eich pensiwn CPLIL, ewch i [wefan y CPLIL cenedlaethol](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

I gael mwy o wybodaeth am yr amddiffyniad tanategu, ewch i adran [Datrysiaid McCloud](#) ar ein gwefan.

Pryd allwch chi gymryd eich pensiwn

Gallwch ddewis rhoi'r gorau i weithio a chymryd eich pensiwn ar unrhyw adeg rhwng 55 a 75 oed. Eich oedran ymddeol arferol yw'r oedran y cewch gymryd y pensiwn yr ydych wedi'i gronni heb ostyngiadau ymddeoliad cynnar.

Ar gyfer y pensiwn a gronnwyd o 1 Ebrill 2014, eich oedran ymddeol arferol yw un ai eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth, neu 65 oed os yn hwyrach. Gallwch ganfod beth yw eich Oedran Pensiwn y Wladwriaeth drwy ddefnyddio [cyfrifiannell Oedran Pensiwn y Wladwriaeth y Llywodraeth](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Bydd unrhyw fuddion yr ydych wedi eu cronni cyn 1 Ebrill 2014 gydag oedran ymddeol arferol o 65 (oni bai eich bod yn bodloni Rheol 85). Mae'n rhaid i chi gymryd eich pensiwn CPLIL cyfan ar yr un pryd.

Cymryd eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol

Nid oes gostyngiad os ydych yn cymryd eich pensiwn ar eich oedran ymddeol arferol. Os ydych yn cymryd eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol, bydd yn cael ei leihau. Mae'r gostyngiad ar sail y nifer o flynyddoedd a dyddiau o'r dyddiad yr ydych yn cymryd eich pensiwn i'ch oedran ymddeol arferol.

Ffactorau gostyngiad ymddeoliad cynnar

Mae'r Llywodraeth yn gosod y ffactorau gostyngiad ymddeoliad cynnar. Maent yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r tabl isod yn dangos y ffactorau gostwng sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

Tabl 2: Ffactorau gostyngiad ymddeoliad cynnar

Nifer y Blynnyddoedd y Telir eich Pensiwn yn Gynnar	Gostyngiad yn y Pensiwn Blynnyddol	Gostyngiad yn y Cyfandaliad Awtomatig
0	0%	0%
1	4.9%	1.7%
2	9.3%	3.3%
3	13.5%	4.9%
4	17.4%	6.5%
5	20.9%	8.1%
6	24.3%	9.6%
7	27.4%	11.1%
8	30.3%	12.6%
9	33.0%	14.1%
10	35.6%	15.5%
11	39.5%	Amherthnasol
12	41.8%	Amherthnasol
13	43.9%	Amherthnasol

Os ydych yn penderfynu cymryd eich pensiwn cyn eich oedran ymddeol arferol ac os oeddech yn talu cyfraniadau CPLIL ar 30 Medi 2006 neu yng nghynt, fe allai rhywfaint neu'ch holl fuddion gael eu hamddiffyn rhag cael eu gostwng gan Reol 85. Gallwch ddarllen mwy am gymryd eich pensiwn CPLIL a Rheol 85 ar [wefan y CPLIL cenedlaethol](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Cymryd eich buddion ar ôl eich oedran ymddeol arferol

Os ydych yn aros mewn gwaith ar ôl eich oedran ymddeol arferol, byddwch yn parhau i dalu i mewn i'r CPLIL ac yn cronni mwy o fuddion. Mae'n rhaid i chi gymryd eich pensiwn erbyn eich bod yn 75 oed.

Os ydych yn gohirio cymryd eich pensiwn, bydd eich buddion yn cynyddu. Bydd y cynnydd ar sail pa mor hir ar ôl eich oedran ymddeol arferol y byddwch yn cymryd eich pensiwn.

Salwch

Os oes rhaid i chi adael eich gwaith o ganlyniad i salwch, mae'n bosibl y byddwch yn gallu derbyn eich pensiwn CPLIL ar unwaith. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr fod yn fodlon na allwch yn barhaol wneud eich swydd bresennol tan eich oedran ymddeol arferol **ac** nad ydych yn gallu cyflawni cyflogaeth ar unwaith. Mae hyn yn golygu gwaith am dâl am 30 awr yr wythnos neu fwy, am o leiaf blwyddyn lawn. Mae'n rhaid iddynt gael barn meddyg iechyd galwedigaethol annibynnol cyn iddynt wneud eu penderfyniad.

Gall buddion salwch gael eu talu ar unrhyw oedran ac nid ydynt yn cael eu gostwng os ydynt yn cael eu talu'n gynnar. Yn wir gallai eich buddion gynyddu i wneud yn iawn am eich ymddeoliad cynnar.

Diswyddo ac effeithlonrwydd busnes

Bydd y buddion CPLIL rydych wedi eu cronni yn cael eu talu ar unwaith heb unrhyw ostyngiadau cynnar os:

- rydych yn 55 mlwydd oed neu'n hŷn ac
- rydych wedi bod yn aelod o'r CPLIL ers o leiaf dwy flynedd, a
- bod eich cyflogwr yn eich diswyddo neu os ydych wedi ymddeol ar sail effeithlonrwydd busnes

Ymddeoliad Hyblyg

O 55 oed os ydych yn gostwng eich oriau neu'n symud i rôl is, a bod eich cyflogwr yn cytuno, gallwch gymryd rhywfaint neu'r holl fuddion pensiwn rydych eisoes wedi'u cynilo. Fodd bynnag, mae angen polisi ar eich cyflogwr ar p'un ai a ydynt yn cynnig ymddeoliad hyblyg.

Byddwch yn derbyn cyflog o'ch swydd â'r oriau wedi eu gostwng neu eich swydd rôl is a byddwch yn parhau i dalu cyfraniadau i'r CPLIL, gan gronni rhagor o fuddion yn y CPLIL.

Addasiadau costau byw

Mae eich pensiwn CPLIL yn cynyddu yn unol â chostau byw bob blwyddyn drwy gydol eich ymddeoliad. Os yw costau byw yn cynyddu bydd eich pensiwn yn cynyddu hefyd.

Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddarllen mwy am [gymryd eich pensiwn CPLIL](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Hefyd gallwch wyllo'r [fideos Gwneud Pensiwn yn Syml](#). 'Bywyd ar ôl gwaith' ac 'Amddiffyniad ar eich cyfer chi a'ch teulu'.

Cymryd cyfandaliad pan rydych yn ymddeol

Pan fyddwch yn ymddeol cewch ddewis i newid rhywfaint o'ch pensiwn yn gyfandaliad untro. Am bob £1 o pensiwn blyneddol rydych chi'n ei ildio, fe gewch chi gyfandaliad o £12.

Os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL cyn 1 Ebrill 2008, byddwch yn cael cyfandaliad di-dreth awtomatig pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn. Hefyd bydd gennych yr opsiwn i gyfnwio rhan o'ch pensiwn blyneddol yn gyfandaliad ychwanegol.


Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn rhoi terfyn ar faint o gyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfandaliad. Ar hyn o bryd, uchafswm y cyfandaliad yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion
- £268,275*
- £268,275* namyn cyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi amddiffyniad Lwfans Oes ddilys, mae'n bosibl y gallech gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd yn gyfandaliad di-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfandaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

Enghraifft 2: Troi pensiwn blyneddol yn gyfandaliad



Pan fydd Liz yn ymddeol, bydd ganddi bensiwn blynyddol o £11,300 a chyfandaliad di-dreth awtomatig o £18,750. Gall Liz gymryd hyd at 25% o'r gwerth cyfalaf fel cyfandaliad, sy'n £55,125. Os yw'n gwneud hynny bydd yn derbyn cyfandaliad ychwanegol o £36,375 a bydd ei phensiwn blynyddol yn gostwng o £3,031 i £8,269.

Mae cymryd cyfandaliad mwy yn lleihau **eich** pensiwn ond nid yw'n lleihau unrhyw bensiwn goroeswr sy'n daladwy ar ôl i chi farw i'ch gŵr, gwraig, partner sifil, partner cymwys sydd yn cyd-fyw neu blant.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn meddwl yn ofalus am yr opsiwn hwn cyn i chi gymryd eich pensiwn. Ni fydd yn bosibl newid eich meddwl ar ôl i'ch pensiwn gael ei dalu. Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am droi eich pensiwn blynyddol yn gyfandaliad pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn. Gweler [cymryd eich pensiwn CPLIL: y broses](#) i gael rhagor o fanylion.

Bydd Cronfa Bensiynau Clwyd yn gofyn i chi am fanylion unrhyw gyfandaliadau yr ydych eisoes wedi'u derbyn pan fyddwch yn cymryd eich pensiwn.

Ailgylchu

Mae defnyddio eich cyfandaliad i gynyddu'r cyfraniadau y byddwch yn eu talu i gynllun pensiwn yn cael ei alw'n 'ailgylchu'. Mae hwn yn faes cymhleth. Bydd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn penderfynu bod ailgylchu wedi digwydd os yw'r amodau perthnasol i gyd wedi eu bodloni. Os yw Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn ystyried bod 'ailgylchu' wedi digwydd, yna bydd rhaid i chi dalu treth ychwanegol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am [ailgylchu cyfandaliad](#) (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg) gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Mae'n bosibl yr hoffech gael cyngor ariannol os ydych yn credu yr effeithiwyd arnoch.

Rhagor o wybodaeth

Mae mwy o wybodaeth a chyfrifiannell cyfandaliad ar [wefan y CPLIL cenedlaethol](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Cynyddu eich pensiwn

Bydd y [cynlluniwr cyllideb](#) ar ddiwedd y canllaw hwn yn eich helpu chi i weld pa incwm y byddwch ei angen pan rydych yn rhoi'r gorau i weithio. Yn yr adran hon rydym yn edrych ar ffyrdd y gallwch gynyddu'r incwm hwnnw.

Gallwch dalu mwy o gyfraniadau i gynyddu eich pensiwn drwy dalu:

- cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY)
- cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol (CGY)
- cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol
- i mewn i bensiwn personol neu fudd-ddeiliad

Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPY)

Os ydych yn talu cyfraniadau pensiwn llawn ym mhrif adran y CPLIL, gallwch dalu cyfraniadau ychwanegol i brynu pensiwn blynyddol ychwanegol. Bydd unrhyw bensiwn ychwanegol rydych yn ei brynu yn cael ei ychwanegu i'r pensiwn CPLIL. Gallwch dalu am y pensiwn ychwanegol hwn drwy gyfraniadau rheolaidd o'ch tâl neu drwy dalu cyfandaliad.

Ar 1 Ebrill 2014, gosodwyd terfyn o £6,500 y flwyddyn i gapio swm y pensiwn blynyddol y gallwch ei brynu yn y CPLIL. Mae'r terfyn hwn wedi'i amddiffyn rhag effeithiau chwyddiant bob blwyddyn ers hynny. Dangosir y terfyn presennol ar y gyfrifiannell CPY ar-lein. Gallwch ddefnyddio'r ddolen isod i weld beth fyddai cost CPY.

<https://www.lgpsmember.org/help-and-support/tools-and-calculators/buy-extra-pension-calculator> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol

Mae cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) yn eich galluogi i dalu mwy i gael cynilion ychwanegol ar gyfer eich ymddeoliad. Mae cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol yn cael eu buddsoddi ar wahân mewn cronfeydd sydd yn cael eu rheoli gan ddarparwyr mewnol Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol Cronfa Bensiynau Clwyd, Prudential ac Utmost Life. Byddech yn elwa o ostyngiad yn y dreth ar y cyfraniadau CGY yr ydych yn eu talu.

Gall eich cyflogwr gynnig CGY rhannu cost trwy drefniant aberthu cyflog. Os ydynt yn gwneud hynny, byddwch chi a'ch cyflogwr yn talu llai o gyfraniadau yswiriant gwladol. Gwiriwch gyda'ch cyflogwr os ydynt yn cynnig cynllun aberthu cyflog ar gyfer cyfraniadau CGY.

Pan fyddwch chi'n cymryd eich pensiwn CPLIL, gallwch ddefnyddio eich cronfa CGY i brynu incwm wedi'i warantu am oes (a elwir yn flwydd-dâl) neu brynu pensiwn CPLIL atodol. Yn amodol ar gyfyngiadau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, fe allech chi gymryd hyd at 100% o'ch cronfa CGY fel cyfandaliad di-dreth. Gallwch drosglwyddo eich cronfa CGY i gynllun pensiwn arall ar unrhyw adeg cyn i chi gymryd eich pensiwn CPLIL.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'r adran [talw cyfraniadau ychwanegol](#) ar ein gwefan.

Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol

Mae'r rhain yn debyg i'r cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol mewnol ond nid ydynt yn gysylltiedig â'r CPLIL mewn unrhyw ffordd. Gyda chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol annibynnol, rydych chi'n dewis y darparwr, sy'n gwmni yswiriant fel arfer. Efallai yr hoffech ystyried eu ffioedd gwahanol, buddsoddiadau amgen a pherfformiad yn y gorffennol.

Gyda CGY Annibynnol, gallwch fel arfer gymryd 25% o'r gronfa CGY fel arian parod di-dreth a'r gweddill fel blwydd-dal, felly maent yn gweithio'n wahanol i CGY CPLIL.

Pensiynau personol neu fudd-ddeiliaid

Gallwch dalu i mewn i gynllun pensiwn personol neu gynllun pensiwn budd-ddeiliaid ar yr un pryd â thalu i CPLIL. Bydd angen i chi ystyried ffioedd, buddsoddiadau amgen a pherfformiad yn y gorffennol pan fyddwch yn dewis darparwr.

Dylech ystyried cael cyngor ariannol cyn cymryd unrhyw gynilion pensiwn ychwanegol.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am dalu mwy i gynyddu eich pensiwn ar wefan [y CPLIL cenedlaethol](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Hefyd gallwch wyllo'r [fideos Gwneud Pensiwn yn Syml](#), gan gynnwys 'Rheoli eich pensiwn'.

Treth a'ch pensiwn

Un o'r manteision o gynilo pensiwn gyda'r CPLIL yw eich bod yn derbyn rhyddhad ar dreth ar y cyfraniadau rydych yn eu talu. Mae Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn cyfyngu cyfanswm y rhyddhad treth y gallwch ei dderbyn. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu arbed cymaint ag yr hoffent oherwydd y bydd eu cynilion pensiwn yn llai na'r cyfyngiadau hyn, a elwir yn lwfans blynyddol.

Os ydych yn ystyried talu yn ychwanegol, fe ddylech fod yn ymwybodol o'r lwfans blynyddol. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gyfanswm y cyfraniadau y gallwch eu talu. Dim ond ar gyfraniadau hyd at 100% o'ch enillion trethadwy mewn blwyddyn dreth y cewch ryddhad treth.

Lwfans blynyddol

Y lwfans blynyddol yw'r terfyn ar faint y gall eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb i chi orfod talu treth.

Yn y CPLIL cyfanswm y lwfans blynyddol a ddefnyddir yw'r twf yng ngwerth eich buddion pensiwn dros y flwyddyn dreth.

Ar gyfer trefniadau prynu gydag arian, fel cynlluniau CGY, y lwfans blynyddol rydych yn ei ddefnyddio yw cyfanswm y cyfraniadau sy'n cael eu talu gennych, ac ar eich rhan, dros y flwyddyn dreth.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os yw eich cynilion pensiwn CPLIL yn mynd y tu hwnt i'r lwfans blynyddol safonol drwy anfon cyfriflen cynilion pensiwn atoch. Mae'n rhaid i ni anfon y gyfriflen atoch erbyn 6 Hydref yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth.

Pwysig: mae'n bosibl eich bod yn talu i fwy nag un cynllun pensiwn. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio nad yw cyfanswm eich cynilion pensiwn ar draws yr holl gynlluniau yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad lwfans blynyddol.

Rhagor o Wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am lwfans blynyddol, yn cynnwys adnoddau i wirio eich lwfans, ar gael ar [wefan y CPLIL cenedlaethol](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Hefyd gallwch wyllo'r [fideo Gwneud Pensiwn yn Syml](#), 'Eich Lwfans Blynyddol'.

Ar ôl i chi gymryd eich pensiwn

Yn yr adran hon, byddwn yn edrych ar ddigwyddiadau a all ddigwydd unwaith y byddwch yn derbyn eich pensiwn CPLIL.

Rydych yn cael swydd newydd

Os ydych yn cael swydd newydd mewn llywodraeth leol, neu gyda chyflogwr sy'n cynnig aelodaeth o'r CPLIL, mae'n rhaid i chi ddweud wrth Gronfa Bensiynau Clwyd yn ysgrifenedig. Ni fydd eich pensiwn yn cael ei effeithio fel arfer.

Os ydych yn derbyn pensiwn salwch haen tri, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch cyn gyflogwr os ydych yn dechrau unrhyw waith am dâl.

Os ydych yn dychwelyd i'r gwaith fe allai eich cod treth newid. Gall Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ateb [ymholiadau cyffredinol am godau treth](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Rydych yn symud dramor

Gall eich pensiwn CPLIL gael ei dalu'n gyffredinol i gyfrif banc dramor. Os ydych yn ystyried symud dramor, cysylltwch â ni i sicrhau fod eich taliadau pensiwn yn parhau.

Newidiadau i'ch statws priodasol

Mae angen i chi roi gwybod i Gronfa Bensiynau Clwyd am unrhyw newid i'ch statws priodasol drwy anfon copi o'r dystysgrif. Mae hyn yn sicrhau, os byddwch yn marw, bod gennym y manylion diweddaraf am unrhyw bensiynau goroeswr a allai fod yn daladwy.

Hefyd efallai byddwch yn dymuno llenwi ffurflen mynegi dymuniad newydd i'n hysbysu i bwy yr hoffech i ni dalu unrhyw grant marwolaeth.

Os ydych yn newid eich cyfeiriad neu gyfrif banc

Os ydych yn symud tŷ neu'n newid cyfrif banc mae'n rhaid i chi ddweud wrth Gronfa Bensiynau Clwyd. Cysylltwch â ni yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl i roi'r manylion newydd i ni.

Buddion marwolaeth

Unwaith rydych yn cymryd eich pensiwn caiff ei dalu i chi am weddill eich oes.

Os ydych yn marw ar ôl i chi ddechrau cymryd eich pensiwn gyda ni, byddwn yn rhoi'r gorau i dalu eich pensiwn. Dylai eich perthynas agosaf neu'r unigolyn sy'n delio â'ch ystâd roi gwybod i Gronfa Bensiynau Clwyd am eich marwolaeth. Dylent wneud hyn cyn gynted â phosibl fel nad yw eich pensiwn yn cael ei ordalu.

Os byddwch yn marw cyn 75 oed a'ch bod wedi bod yn bensiynwr gyda ni ers llai na 10 mlynedd, efallai bydd grant cyfandaliad marwolaeth yn cael ei dalu. Byddai'r swm a fyddai'n daladwy:

- ddeg gwaith yn fwy na'ch pensiwn blynyddol (wedi'i addasu os oedd y pensiwn blynyddol wedi ei droi'n gyfandaliad)
- yn llai na chyfanswm y pensiwn sydd eisoes wedi ei dalu i chi

Caiff hyn ei gyfrifo ychydig yn wahanol ar gyfer unrhyw ran o'ch pensiwn a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014.

Bydd pensiwn goroeswr yn cael ei dalu i'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil ar ôl i chi farw. Efallai bydd pensiwn goroeswr yn cael ei dalu i'ch partner sy'n cyd-fyw a/neu blant, yn amodol ar amodau penodol sydd rhaid eu bodloni er mwyn bod yn gymwys.

Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am fuddion marwolaeth yn y CPLIL ar [wefan y CPLIL cenedlaethol](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg). Hefyd gallwch wyllo'r [fideos Gwneud Pensiwn yn Syml](#), gan gynnwys 'Amddiffyniad ar gyfer eich teulu.'

Cymryd eich pensiwn CPLIL: y broses

Yn y sesiwn hon, byddwn yn edrych ar:

- beth ddylech chi ei ystyried wrth i chi gynllunio i gymryd eich pensiwn CPLIL a
- beth sy'n digwydd nesaf pan rydych chi wedi gwneud penderfyniad terfynol i gymryd eich pensiwn

Hyfforddiant cyn ymddeol

Mae rhai cyflogwyr yn cynnig cyrsiau ar gyfer eu gweithwyr sy'n agos i ymddeoliad. Bydd y pynciau yr ymdrinnir â nhw yn amrywio yn dibynnu ar bwy sy'n darparu'r cwrs. Gall mynychu sesiwn fel hyn roi'r isod i chi:

- gwybodaeth ddefnyddiol am beth ddylech chi feddwl amdano cyn ymddeol
- y cyfle i gael arbenigwr yn ateb eich cwestiynau
- lle i rannu eich safbwyntiau a phrofiadau gyda chydweithwyr sydd hefyd yn cyrraedd oed ymddeol

Cysylltwch â'ch cyflogwr i gael gwybod pa hyfforddiant y gallant ei gynnig.

Cyfnod rhybudd

Dylech siarad â'ch cyflogwr i weld faint o rybudd sydd angen i chi ei roi. Efallai bod hyn eisoes wedi'i nodi yn eich contract cyflogaeth.

Incwm a gwariant ar ôl ymddeol

Mae'n bwysig eich bod yn meddwl am eich incwm yn ystod eich ymddeoliad cyn i chi adael eich swydd. Bydd rhai costau yn gostwng wedi i chi roi'r gorau i weithio. Fe allai eich costau teithio ostwng, rydych yn debygol o dalu llai o dreth ac ni fyddwch yn talu cyfraniadau yswiriant gwladol. Gallai costau eraill fel biliau'r cartref gynyddu pan rydych yn rhoi'r gorau i weithio.

Yn dibynnu ar eich oed pan rydych yn rhoi'r gorau i weithio, mae'n bosibl y byddwch yn gallu cymryd Pensiwn y Wladwriaeth. Mae mwy o wybodaeth am [Bensiwn y Wladwriaeth](#) yn rhan dau y canllaw hwn.

Hefyd mae yna [gynlluniwr cyllideb](#) sylfaenol ar ddiwedd y canllaw hwn i'ch helpu chi i gynllunio.

Canllaw Pension Wise

Mae Pension Wise yn wasanaeth y llywodraeth gan Helpwr Arian. Mae'n cynnig arweiniad rhad ac am ddim a diduedd i aelodau 50 oed a hŷn ar beth allant ei wneud gyda'u cynilion cyfraniadau diffiniedig, fel CGY.

Mae'n rhaid i chi naill ai fynychu apwyntiad gyda Pension Wise neu dynnu allan rhag mynychu un cyn y gallwch chi ddechrau derbyn eich CGY. Rydym yn eich annog i fynychu'r apwyntiad gan y gallai eich helpu i ddeall eich opsiynau o ran CGY. Os hoffech fe allwn ni drefnu'r apwyntiad ar eich rhan.

Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi pan fyddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chymryd eich pensiwn CPLIL a CGY.

Eich pensiwn CPLIL

Mae eich cyfriflen buddion blynyddol yn dangos buddion CPLIL sydd wedi eu cronni gennych hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn ac amcangyfrif o'r buddion y byddech yn eu derbyn pe baech yn aros yn eich swydd tan eich oedran ymddeol arferol.

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod faint fydd eich buddion pensiwn ar y dyddiad rydych yn dewis ymddeol cyn i chi wneud penderfyniad terfynol. Mae'n bosibl na fydd y ffigyrau ar eich datganiad yn dweud yr isod wrthych chi:

- y buddion gostyngol fyddai'n cael eu talu pe baech chi'n ymddeol yn gynnar
- y buddion fyddai'n cael eu talu os yw eich cyflog neu eich oriau gwaith wedi newid yn ddiweddar neu os byddant yn newid cyn i chi gymryd eich pensiwn

- effaith gorchymyn rhannu pensiwn (os yw rhan o'ch pensiwn wedi ei ddyfarnu i'ch cyn bartner ar ôl ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil)
- beth yw eich opsiynau os oes gennych CGY mewnol
- os byddwch yn cael eich effeithio gan gyfyngiadau Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ar gynilion pensiwn

Fe allwch gael amcangyfrif o fuddion y CPLIL sy'n daladwy ar ddyddiad penodol drwy fewngofnodi i'r Hunanwasanaeth Aelodau i ddefnyddio'r **buddion a rhagamcanion pensiwn** a gwneud eich amcangyfrif eich hun:

<https://mss.clwydpensionfund.org.uk>

Fodd bynnag, nid yw amcangyfrifon ar-lein yn ystyried:

- Debydau ysgariad
- CGY
- Cynllun yn talu

Fel arall, fe allwch gysylltu â ni i ofyn am amcangyfrif pensiwn a bydd un o'n Swyddogion Pensiwn yn llunio amcangyfrif ar eich cyfer chi. Rhwch eich enw, rhif Yswiriant Gwladol a dyddiad ymddeol arfaethedig i ni pan rydych yn gofyn am amcangyfrif. Gall gymryd 6 i 8 wythnos cyn i amcangyfrifon gael eu hanfon atoch.

Bydd angen i'ch cyflogwr ofyn am amcangyfrif pensiwn ar eich rhan os ydych:

- yn ystyried ymddeoliad hyblyg
- o bosibl yn gadael eich swydd oherwydd diswyddiad neu effeithlonrwydd busnes dros 55 oed
- o bosibl yn gorfod gadael eich swydd o ganlyniad i afiechyd

Dyma amlinelliad sylfaenol o'r broses a fydd yn cael ei dilyn unwaith rydych wedi gwneud penderfyniad terfynol i gymryd eich pensiwn CPLIL.

Cam 1:

Siaradwch â'ch cyflogwr a chytuno ar ddyddiad ymddeol.

Cam 2

Bydd eich cyflogwr yn rhoi'r wybodaeth i Gronfa Bensiynau Clwyd ynglŷn â'ch tâl, dyddiad gadael a'r rheswm dros adael.

Cam 3

Byddwn yn llunio amcangyfrif o'ch buddion pensiwn ac yn anfon hwn atoch gyda ffurflenni er mwyn i chi gadarnhau:

- eich bod yn dymuno cymryd eich pensiwn (os yw hyn yn berthnasol)

ac os ydych yn cymryd eich pensiwn:

- eich dewis i droi pensiwn blyneddol yn gyfandaliad

- gwybodaeth am bensiynau a chyfandaliadau sydd eisoes wedi eu talu i chi
- opsiynau talu CGY os oes gennych chi CGY mewnol, a chadarnhad eich bod wedi mynychu apwyntiad Pension Wise neu wedi dewis peidio â mynychu un

Hefyd gofynnir i chi am eich manylion banc a chopi o'ch tystysgrif geni, trwydded yrru neu basport.

Cam 4

Rydych yn dychwelyd eich ffurflenni hawlio pensiwn ac unrhyw ddogfennau rydym wedi gofyn amdanynt.

Cofiwch: unwaith rydych chi wedi gwneud penderfyniad ar:

- p'un ai i droi pensiwn blyneddol yn gyfandaliad, a
- sut rydych chi eisiau i'ch CGY mewnol gael ei dalu

mae'r penderfyniadau hyn yn derfynol ac ni ellir eu newid yn ddiweddarach.

Cam 5

Rydym yn trefnu talu eich pensiwn ac unrhyw gyfandaliad ar ôl eich dyddiad ymddeol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Dim ond ar ôl i'ch cyflogwr roi'r wybodaeth yr ydym ei hangen i ni y gallwn gyfrifo eich buddion pensiwn. Unwaith yr ydym wedi cael y wybodaeth honno, rydym yn anelu i ddarparu amcangyfrif pensiwn i chi o fewn 10 diwrnod gwaith.

Unwaith rydym wedi cael eich ffurflenni wedi'u llenwi, rydym yn anelu i sefydlu eich pensiwn a thalu unrhyw gyfandaliad o fewn 15 diwrnod gwaith o dderbyn y ffurflenni wedi eu llenwi, neu ddiwrnod ar ôl eich ymddeoliad, os yw'n hwyrach.

Gall camau 3 a 5 gymryd mwy o amser os oes gennych gronfa CGY mewnol neu os ydych yn cael eich effeithio gan y lwfans blyneddol. Dylech feddwl am yr amseru wrth benderfynu faint o rybudd i'w roi.

Byddwn yn talu eich pensiwn CPLIL ar yr 28ain o bob mis. Pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu gyntaf, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio cod treth 1257L ar sail mis 1. Byddwn yn anfon manylion eich taliadau pensiwn i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Bydd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yn anfon cod treth diwygiedig i ni os bydd angen. Gallwch ddarllen mwy am dreth yn [Rhan Dau](#) y canllaw hwn.

Cael cymorth ychwanegol

Bydd y penderfyniadau rydych yn eu gwneud pan rydych yn cymryd eich pensiwn yn effeithio ar eich incwm yn ddiweddarach yn eich bywyd. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud y penderfyniadau cywir. Mae nifer o sefydliadau yn darparu cefnogaeth, arweiniad a gwybodaeth. Mae [gwybodaeth gyswllt ar gyfer sefydliadau cymorth](#) yn rhan dau y canllaw hwn.

Help os oes gennych chi ymholiad neu gŵyn

Cysylltwch â ni hefyd os oes gennych:

- unrhyw amheuaeth ynglŷn â'ch pensiwn CPLIL
- gwestiwn am eich buddion CPLIL
- os ydych wedi profi unrhyw broblemau gyda'r CPLIL

Byddwn yn anelu i fynd i'r afael â'r mater cyn gynted â phosibl drwy:

- ddarparu gwybodaeth goll i chi
- cywiro unrhyw gamgymeriadau, a
- chymryd unrhyw gamau eraill sydd eu hangen i ddatrys y problem

Os ydych dal yn anfodlon gallwch gymryd camau pellach.

- Gallwch ofyn i'ch cwyn gael ei hadolygu'n ffurfiol o dan Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol y Cynllun. Mae'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol yn adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad, gweithred neu esgeulustod yr ydych yn cwyno yn ei gylch. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol a'r cyfyngiadau amser sy'n berthnasol, gweler ein canllaw yn **yr adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.
- Os oes gennych chi gŵyn am y modd y caiff y cynllun pensiwn ei weinyddu neu ei reoli fe allwch gysylltu â'r Ombwdsmon Pensiynau. Fe gewch fwy o wybodaeth a gallwch gyflwyno cwyn ar-lein ar **wefan yr Ombwdsmon Pensiynau**.
- Fe allwch gysylltu â Helpwr Arian a all gynorthwyo gydag ymholiadau cyffredinol ynglŷn â phensiynau. Gallwch ddarllen mwy am y gwasanaethau maent yn eu cynnig ar **wefan Helpwr Arian**.

Rhan 2: Gwybodaeth ddefnyddiol arall

Pensiwn y Wladwriaeth

Yn ogystal â'ch buddion CPLIL, efallai byddwch yn gymwys am Bensiwn y Wladwriaeth a delir gan y Llywodraeth.

Bydd faint o Bensiwn y Wladwriaeth y byddwch yn ei gael yn seiliedig ar eich cofnod Yswiriant Gwladol.

Ewch i wefan y Llywodraeth i gael rhagor o wybodaeth am [dderbyn Pensiwn y Wladwriaeth](#) a sut i'w hawlio. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Hefyd gallwch gael [amcangyfrif o Bensiwn y Wladwriaeth](#) ar-lein. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Treth a'ch pensiwn

Lwfans personol yw'r cyfanswm o incwm y gallwch ei ennill cyn talu treth. Y lwfans personol safonol ar gyfer 2025/2026 yw £12,570.

Os yw cyfanswm eich incwm trethadwy yn fwy na'ch lwfans personol, yna byddwch yn talu treth. Ni fydd cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cael eu tynnu o'ch taliadau pensiwn CPLIL.

Bob blwyddyn bydd eich cyflogwr neu eich cronfa CPLIL (os telir pensiwn i chi) yn rhoi P60 i chi. Mae eich P60 yn dangos faint dalwyd i chi a faint o dreth sydd wedi ei dynnu. Mae'n bwysig eich bod yn cadw eich P60 mewn lle diogel.

I gael rhagor o wybodaeth ar dreth incwm, cysylltwch â Chyllid a Thollau Ei Fawrhdy neu ewch i'r wefan:

Rhif ffôn: 0300 200 3300

Gwefan: www.gov.uk/income-tax (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Olrhain hawliau pensiwn blaenorol

Fe allai fod yna hyd at £30 biliwn mewn cronfeydd pensiwn sydd heb eu hawlio neu sy'n anweithredol neu wedi eu colli. Mae pobl wedi cynilo arian ar gyfer eu hymddeoliad.

Er mwyn cynllunio ar gyfer eich ymddeoliad, bydd angen i chi wybod faint o incwm y byddwch yn ei gael. Mae hyn yn cynnwys incwm o gynlluniau pensiwn y gweithle neu bersonol a Phensiwn y Wladwriaeth.

Os ydych wedi colli trywydd pensiwn, mae yna wasanaeth y gallwch ei ddefnyddio gan y Llywodraeth i ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer:

- eich cynllun pensiwn gweithle neu bersonol
- cynllun rhywun arall os ydych wedi cael eu caniatâd

Gallwch gael at y gwasanaeth drwy [wefan y Gwasanaeth Orlhain Pensiwn](#)

Cofiwch roi gwybod i'ch darparwyr pensiwn am unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad cartref.

Twyll pensiynau

Rydych chi wedi gweithio'n galed i gronni eich pensiwn CPLIL. Gallai twyllwyr geisio cael gafael ar eich cynilion pensiwn.

Mae twyll yn anodd i'w ganfod ac yn aml iawn mae wedi ei guddio gan wefannau sy'n edrych fel rhai dilys, adborth gan gwsmeriaid a deunyddiau sy'n gwneud iddynt ymddangos fel rhai go iawn.

Fe all y Grŵp Gweithredu ar Dwyll Pensiwn eich helpu chi i ddarganfod yr arwyddion a diogelu eich hun rhag twyll. Mae'r Grŵp yn dasglu aml-asiantaeth gyda gorfodi'r gyfraith, y llywodraeth a diwydiant yn cydweithio i fynd i'r afael â thwyll pensiynau. Mae'r Grŵp Gweithredu ar Dwyll Pensiwn wedi llunio rhestr wirio y gallwch ei defnyddio os y cysylltir â chi ynglŷn â'ch pensiwn:

Cam 1: A yw'r cynnig yn annisgwyl??

Mae darparwyr pensiwn cyfreithlon yn annhebygol iawn o gysylltu â chi yn annisgwyl ynglŷn â'ch pensiwn. Byddwch yn wiliadwrs o gynigion adolygiadau pensiwn rhad ac am ddim a/neu addewidion o daliadau uchel/sicr.

Cam 2: Ydych chi wedi gwirio gyda phwy rydych chi'n delio â nhw??

Mae gan wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol Gofrestr Gwasanaethau Ariannol y gallwch ei gwirio i sicrhau fod unrhyw un sy'n cynnig cyngor neu wasanaethau i chi wedi eu hawdurdodi i wneud hynny.

Caiff cwmni sy'n esgus ei fod yn gwmni awdurdodedig ei adnabod fel 'cwmni clôn' ac mae'n bosibl fod ganddynt wefan glôn sy'n edrych yn union yr un fath ag un go iawn. **Awgrym:** gwiriwch eu manylion cyswllt yn fanwl yn erbyn y gofrestr i weld os ydynt yn cyfateb. Sicrhewch bob amser fod cwmni wedi ei awdurdodi â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol neu ni fyddwch yn cael eich amddiffyn gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol neu'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol os yw pethau yn mynd o'i le.

Gwefan: register.fca.org.uk (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Rhif ffôn: 0800 111 6768

Cam 3: Arhoswch a meddyliwch. Ydych chi'n cael eich rhuthro neu a oes pwysau'n cael ei roi arnoch chi?

Mae pwysau i weithredu'n gyflym neu fe fyddwch ar eich colled yn aml yn arwydd o rybudd. Cymrwch amser i wneud yr holl wiriadau rydych angen eu gwneud a chofiwch, os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir yna mae'n debyg ei fod.

Cam 4: A ddylech chi gael cyngor neu arweiniad diduedd?

Helpwr Arian

Mae gwybodaeth ac arweiniad diduedd a rhad ac am ddim ar gael ar-lein, dros y ffôn a thrwy'r gwasanaeth gwe-sgwrsio.

Gwefan: <https://www.moneyhelper.org.uk/cy>

Rhif ffôn: 0800 011 3797

Ymgynghorwyr ariannol

Os y gallwch mae'n syniad da i siarad ag ymgynghorydd ariannol. Yn aml mae symiau mawr o arian yn y fantol ac fe fyddant yn gallu eich helpu chi i wneud y penderfyniad cywir i chi.

Awgrym: gwiriwch fod unrhyw ymgynghorydd yr ydych yn dewis ei ddefnyddio wedi ei reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Arhoswch! Meddyliwch am Dwyll

Dysgwch fwy am sut i adnabod ac osgoi twyll. Gwefan: stopthinkfraud.campaign.gov.uk (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Os ydych yn amau twyll, rhowch wybod amdano.

Gallwch roi gwybod i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol am gwmni anawdurdodedig neu dwyll gan ddefnyddio'r [ffurflen adrodd ar-lein](#) neu ffonio **0800 111 6768**. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Os ydych yn amau twyll, rhowch wybod i Action Fraud drwy ffonio **0300 123 2040** neu fynd i'r wefan hon www.actionfraud.police.uk. (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Diogelwch eich pensiwn gyda ScamSmart. I gael gwybod mwy ewch i

www.fca.org.uk/scamsmart (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Lle i fynd am gymorth

Mae'r dolenni isod yn mynd i wefannau allanol. Mae'n bosibl y bydd rhai o'r gwefannau yn uniaith Saesneg.

Pensionwise yw gwasanaeth y Llywodraeth a ddarperir gan HelpwrArian sy'n cynnig arweiniad diduedd yn rhad ac am ddim unwaith rydych yn 50 oed i'ch helpu chi i ddeall eich dewisiadau pensiwn cyfraniad diffiniedig. Fe gewch ragor o wybodaeth ar eu gwefan neu drwy ffonio **0800 011 3797**.

Mae HelpwrArian yn cynnig arweiniad diduedd ynglŷn ag arian a phensiynau a gefnogir gan Lywodraeth y DU ac sy'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio.

Which? yw'r corff defnyddiwr annibynnol mwyaf yn y DU. Maent yn darparu cyngor diduedd ac yn cyhoeddi canllawiau i ddefnyddwyr, gan gynnwys gwybodaeth ar faterion pensiwn.

Mae Unbiased yn wefan sy'n rhestru ymgynghorwyr ariannol annibynnol, broceriaid morgais, cyfreithwyr a chyfrifwyr. Mae'n gwirio fod pawb wedi cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yw'r corff rheoleiddio ar gyfer ymgynghorwyr ariannol annibynnol. Gall yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol eich helpu gydag adnabod arwyddion o dwyll buddsoddi a phensiwn.

Mae Cyngor ar Bopeth yn rhwydwaith o 240 o elusennau annibynnol ar draws y Deyrnas Unedig sydd yn rhoi gwybodaeth a chynghor cyfrinachol rhad ac am ddim i helpu pobl gyda phroblemau ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr a phroblemau eraill.

Mae Age UK yn rhoi gwybodaeth a chynghor ar arian a materion cyfreithiol, iechyd a lles, gofal a chefnogaeth a llawer mwy.

Mae Independent Age yn elusen i bobl hŷn yn y DU. Maent yn darparu amrywiaeth o wybodaeth fel help gyda threth y cyngor, credyd pensiwn, lwfans presenoldeb a llawer mwy. Mae rhagor o wybodaeth am eu cefnogaeth ar gael ar eu gwefan neu gallwch eu ffonio ar **0800 319 6789**.

Cynllunio Cyllideb

Mae'n bwysig deall lle rydych yn gwario eich incwm. Bydd hyn yn eich helpu i weld faint o incwm fydd ei angen arnoch wedi i chi ymddeol. Gallwch ddefnyddio'r cynlluniwr cyllideb hwn fel man cychwyn.


Incwm (wythnosol/misol)	Swm
Tâl / Cyflog	£
Tâl / Cyflog (partner)	£
Buddion	£
Arall 1	£
Arall 2	£
Arall 3	£
Cyfanswm Incwm	£

Taliadau allan (wythnosol/misol)	Swm
Morgais / rhent	£
Benthyciad(au) / cardiau credyd	£
Rhent tir / ffi gwasanaeth	£
Yswiriant	£
Treth y Cyngor	£
Nwy	£
Trydan	£
Dŵr	£
Bwyd / cadw tŷ	£
Teithio	£
Ffôn / ffôn symudol	£
Trwydded deledu / tanysgrifiadau teledu	£
Y rhyngrwyd	£
Dillad	£
Presgripsiynau / costau iechyd	£
Argyfyngau	£
Arall 1	£
Arall 2	£
Arall 3	£
Cyfanswm Taliadau Allan	£

Cyfanswm Incwm	£
Cyfanswm Taliadau Allan	£
Incwm Sydd Ar Gael	£

Lle gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae rhagor o wybodaeth am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar [wefan aelodau'r CPLIL cenedlaethol](#). (Mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).



Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am eich cofnod pensiwn, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Rhif ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynaclwyd.org.uk>

Ymwadiad:

Pwrpas y canllaw hwn yw helpu aelodau gyda'u cynllun ymddeol. Mae ar gyfer defnydd cyffredinol ac ni all ymdrin â'r holl amgylchiadau personol. Nid yw'r canllaw yn cynnwys lwfans blynyddol yn llawn, a'r goblygiadau treth ar gyfer aelodau sydd yn mynd y tu hwnt i'r terfynau hyn. Nid yw'r canllaw hwn yn rhoi unrhyw hawliau contract na hawliau statudol, ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig. Os bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â'ch buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd drechaf. Roedd y ddogfen hon yn gywir ar y dyddiad y cafodd ei hysgrifennu. Gall ffactorau a gwybodaeth newid; ewch i'r gwefannau perthnasol os oes angen.

Nodiadau



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.